# Y Delyn Newydd

**Ffurf:**
Uned hir i bedwar neu bum cwpwl. Partneriaid yn wynebu ei gilydd.

Gallwch gael llawer o hwyl gyda'r ddawns hon, drwy ddynwared gwahanol gymeriadau wrth deithio o amgylch (e.e. tylwyth teg, anifeiliaid a.y.y.b.)



Cam 1

**1**

Merched i ddal dwylo. Merch 1 i **arwain** y merched i gyd o amgylch y bechgyn ac yn ôl i'w lleoedd gwreiddiol.

**2**

Y bechgyn i ailadrodd hyn gan ddawnsio o amgylch y merched ac yn ôl i'w lleoedd gwreiddiol.



Cam 3

**3**

Mewn safiad **promenâd**, cwpwl 1 i **arwain** y cyplau eraill o gwmpas **yn groes i'r cloc** ac yn ôl i'w lleoedd

**4**

Cwpwl 1 i groesi breichiau a **throelli** i waelod yr uned gan orffen yn y safle olaf.



Cam 4

Ailddechrau'r ddawns gyda chwpwl 1 newydd.

Dewch i Ddawnsio Gwerin

tinint

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cymraeg Byd Addysg
In Education

# Y Delyn Newydd

Cydio dwylo

SGIL 1





Merched yn sefyll mewn rhes yn wynebu eu partneriaid ac yn dal dwylo ei gilydd (chwith i dde a de i chwith) gan estyn eu breichiau i greu bylchau hyd dwy fraich.



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYMRAEG Byd Addysg In Education

# Y Delyn Newydd

## Sgipio i guriad

**SGIL 2**





**Sgipio ar flaenau'r traed. Cam a hop bychan ar un droed ac yna ar y llall ydy sgipio. Dylid wastad cychwyn gyda'r goes dde. Dylid gofalu na ddaw'r pengliniau i fyny'n ormodol. Un cam sgip ar un droed yn cyfateb i un curiad yn y gerddoriaeth.**

Dewch i Ddawnsio Gwerin
tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg
Byd Addysg In Education

# Y Delyn Newydd

## Ffurfio ac ail ffurfio llinellau syth

SGIL 3





Sefyll ochr yn ochr gan wynebu partner mewn llinellau syth. Dylai'r camau fod yr un maint er mwyn sicrhau llinellau syth wrth deithio ymlaen a nôl. Cadw golwg ar y person nesa atoch i gadw'r llinellau syth.



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYMRAEG Byd Addysg In Education

# Y Delyn Newydd

## Arwain o gwmpas

SGIL 4



Merch 1 yn symud o gwmpas y bechgyn



Merch 1 yn symud o gwmpas y bechgyn ac yn ôl i'w lle gwreiddiol, a'r merched eraill yn ei dilyn yn ôl i'w lleoedd gwreiddiol. Cymerir 8 curiad i fynd y tu ôl i'r bechgyn ac 8 i ddod yn ôl i'w lleodd. Y bechgyn yr un modd.



tinint

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYMRAEG Byd Addysg In Education

# Y Delyn Newydd

Troelli

SGIL 5





Gwynebu partner a dal dwylo de i dde a chwith i chwith. Sgipio mewn cylch gyda'ch partner gyda'r cloc gan symud o safle blaen y set i gefn y set.



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYMRAEG Byd Addysg In Education